PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 25 MEDI 2017

Yn bresennol: Cynghorydd Weaver (Cadeirydd),
Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells a/ac Graham Thomas

Hefyd yn bresennol: Christine Salter, Gary Watkins a/ac Gareth Henson

30 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

31 : DATGAN BUDDIANNAU

Cafwyd Datganiadau o Fuddiannau ym mhob eitem gan y Cynghorwyr Graham Thomas a Nigel Howells oherwydd bod y ddau'n aelodau o Gynllun Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro.

32 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 15 Medi'n gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

33 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cynghorwyd aelodau bod yr adroddiad wedi'i baratoi er mwyn rhoi'r diweddaraf iddyn nhw am gynnydd o ran datblygu Partneriaeth Pensiwn Cymru i reoli ar y cyd asedau buddsoddi'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Cafodd aelodau eu cynghori bod proses gaffael ar gyfer Gweithredwr Pwll yn parhau. Caiff argymhelliad ei wneud i'r Cydbwyllgor Llywio a gofynnir i'r pwyllgor hwn gymeradwyo'r argymhelliad.

PENDERFYNWYD: Nodi bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i sefydlu a chynnydd o ran caffael Gweithredwr y Gronfa.

34 : MIFID II

Cafodd aelodau eu cynghori bod yr adroddiad yn amlinellu effaith rhoi'r Cyfarwyddeb Marchnadoedd yn yr Offeryn Ariannol 2014/65 (MiMiFID II) ac yn arbennig y risg i'r awdurdod gweinyddu o ddod yn gleient manwerthu ar 3 Ionawr 2018.

Gofynnodd Aelodau am eglurhad o statws cleientiaid manwerthu a chawson nhw wybod bod cleientiaid manwerthu wedi'u diogelu rhag buddsoddi mewn cynnyrch amhriodol. Rhaid i gwmnïau buddsoddi esbonio'r risgiau a/neu gyfyngu ar amrywiaeth y buddsoddiadau sy'n cael eu cynnig ac felly mae'r costau'n uwch ac mae'r arian a godir yn llai. Disgwylir i gleientiaid proffesiynol, ar y llaw arall, ymgymryd â'u hasesiadau risg eu hunain gyda chyngor cywir ac felly mae ystod ehangach o fuddsoddiadau ar gael iddyn nhw am gostau is. Mae'r rheoliadau

newydd yn gofyn bod yr awdurdod yn dangos ei alluoedd proffesiynol i bob cwmni y mae'n delio ag ef er mwyn eu galluogi i barhau i fod yn gleientiaid proffesiynol. Bydd angen defnyddio "prawf ansoddol" gan gynnwys asesiad o brofiad a gwybodaeth aelodau o'r pwyllgor, y bydd hanes o fynd i ddigwyddiadau hyfforddiant yn tystio iddyn nhw.  Mae'r awdurdod hefyd yn datgan ei fod ar ddeall na fyddai'n elwa ar gael ei ddiogelu yn yr un ffordd â chleientiaid manwerthu.

PENDERFYNWYD: i'r Pwyllgor: -

a) Nodi'r effaith bosibl ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa o ddod yn gleient manwerthu o 3 Ionawr 2018.

b) Gytuno i ddechrau ceisiadau am statws cleient proffesiynol etholedig ar unwaith gyda phob sefydliad perthnasol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu parhau i roi strategaeth fuddsoddi effeithiol ar waith.

c) Gydnabod na fydd, drwy ethol ar gyfer statws cleient proffesiynol, wedi'i ddiogelu yn yr un modd â chleient manwerthu fel yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

d) Ddirprwyo cyfrifoldeb i Gyfarwyddwyr Corfforaethol Adnoddau at ddibenion cwblhau ceisiadau a phenderfynu ar y sail briodol i bob cais naill ai ar sail gwasanaeth llawn neu sengl.

35 : DATGANIAD CYFRIFON AC ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016-17

Rhoddwyd gwybod i aelodau y disgwyliwyd i'r cyfrifon terfynol gael eu dwyn gerbron y Cyngor yn y cyfarfod ar 28 Medi.

PENDERFYNWYD:  i'r Pwyllgor:

a) Nodi Adroddiad yr Archwilydd

Gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddoed ar gyfer y Gronfa 2016-17

36 : STRATEGAETH FUDDSODDI A DYRANNU ASEDAU

**Cytunodd y Pwyllgor i eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra bo deunydd eithriedig yn cael ei ystyried, Atodiad 1 i'r adroddiad hwn oherwydd y byddai trafod y materion hyn yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth mewn un neu fwy o'r categorïau o wybodaeth eithriedig yn Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Penderfynodd y Pwyllgor ei bod yn fwy o fudd y cyhoedd gydnabod yr eithriad na datgelu'r wybodaeth.**

PENDERFYNWYD:  I'r Pwyllgor gymeradwyo'r Dyraniad Asedau Strategol a argymhellwyd gan y Panel Cynghori ar Fuddsoddi, yn sgil nodi'r cyngor ôl-Banel gan Actiwari'r Gronfa.

37 : COFNODION CYFARFODYDD Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI AR 24 CHWEFROR A 13 MEHEFIN 2017 – CYFRINACHOL

**Cytunodd y Pwyllgor i eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra bo deunydd eithriedig yn cael ei ystyried yn rhan o'r eitem hon oherwydd y byddai trafod y**

**materion hyn yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth mewn un neu fwy o'r categorïau o wybodaeth eithriedig yn Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Penderfynodd y Pwyllgor ei bod yn fwy o fudd i'r cyhoedd gydnabod yr eithriad na datgelu'r wybodaeth.**

PENDERFYNWYD: Nodi cofnodion cyfarfodydd y Panel Cynghori ar Fuddsoddi ar 24 Chwefror a 13 Mehefin 2017.

38 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Caiff dyddiad y cyfarfod nesaf ei bennu ar ôl cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Llywodraethu.